| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **BWRDD PENSIWN** |
| DYDDIAD: | **24 MEDI 2019** |
| TEITL: | **BUDDSODDIAD ECWITI CARBON ISEL** |
| PWRPAS: | **EGLURO A CHRAFFU'R BUDDSODDIAD** |
| AWDUR: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

---

**1.** Cynhaliwyd cyfarfod chwarterol Panel Buddsoddi'r Gronfa Bensiwn ar 16 Mai 2019 yng Nghaernarfon, pryd derbyniwyd cyflwyniad gan Hymans Robertson ar opsiynau ar gyfer buddsoddiad carbon isel o fewn mandad BlackRock i fuddsoddi ecwiti goddefol ar ran Cronfa Gwynedd.

**2.** Barn y Panel oedd y dylid buddsoddi 12% o werth y gronfa bensiwn gyda BlackRock yn eu cronfa Carbon Isel (ecwiti byd-eang). Gan bod cronfeydd BlackRock o fewn y broses caffaeliad ecwiti goddefol 2016 gan y Cronfeydd Pensiwn Cymru, nid oes angen mynd trwy broses caffael.

**3.** Yng nghyfarfod 29 Gorffennaf, ddaru'r Pwyllgor gadarnhau'r buddsoddiad yma. Mae'r datganiad i'r wasg atodol yn darparu rhai manylion perthnasol.

**4.** Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd a rheolwyr cynllun Gwynedd **ddyletswydd ymddiriedol i holl gyflogwyr y cynllun, eu staff a'u pensiynwyr. Y ddyletswydd hon, yn bennaf, sy'n llywio penderfyniadau'r Pwyllgor Pensiwn.** Nid yw'r Gronfa yn dad-fuddsoddi am resymau anariannol yn unig, yn anad dim oherwydd gallai hyn arwain at her gyfreithiol.

**5.** Buddsoddir asedau'r Gronfa Bensiwn er mwyn darparu enillion ariannol i sicrhau diogelwch ariannol ein aelodau ac i leihau'r costau i'r cyflogwyr, sydd wedyn yn lleihau'r gost i dreth dalwyr Gwynedd, Conwy a Môn. Mae hwn yn gyfrifoldeb cymdeithasol pwysig y mae'r Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiwn yn ymwybodol iawn ohono.

**6.** Rydym wedi trafod materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ('ESG') yn rheolaidd ac mae egwyddorion buddsoddi cyfrifol y Gronfa (fel y'u diwygiwyd ym mis Tachwedd 2018) wedi'u nodi'n ffurfiol yn Adran 6 o Ddatganiad Strategaeth Buddsoddi'r Gronfa. Gweler y ddolen isod:

https://www.cronfabensiwngwynedd.cymru/cy/Buddsoddiadau/Datganiad-Strategaeth-Buddsoddi.pdf

**7.** Mae'r Polisi Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yma'n amlinellu'r angen i ystyried y risgiau penodol sy'n codi o newid yn yr hinsawdd wrth ystyried buddsoddiadau.

**8.** Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi mewn cronfa a reolir gan BlackRock i olrhain y Mynegai Carbon Isel MSCI. Bydd y gronfa hon yn lleihau amlygiad i gwmnïau sy'n allyrru carbon wrth olrhain Mynegai Byd-eang MSCI, **gan leihau amlygiad carbon hyd at 80%, yn hytrach na dad-fuddsoddi yn fympwyol.**

**9.** Mae Mynegai Carbon Isel MSCI yn feincnod ar gyfer buddsoddwyr sy'n dymuno rheoli risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r trawsnewid i economi carbon isel. Mae'r mynegai yn anelu at darged gwall olrhain o 0.3% (30 pwynt sylfaen) wrth leihau'r amlygiad carbon. Trwy or-bwyso mewn cwmnïau sydd ag allyriadau carbon isel (o'i gymharu â gwerthiannau) ac mewn cwmnïau ag allyriadau carbon potensial isel (fesul doler o gyfalaf ar y farchnad stoc), mae'r mynegai yn adlewyrchu amlygiad carbon is nag un y farchnad eang.

| **Mesur Allweddol** | **Mynegai Byd-Eang MSCI** | **Mynegai Carbon Isel MSCI** |
|---|---|---|
| Dychweliadau Net (£) | | |
| Ch2 2018 – Ch2 2019 (%) | 10.3 | 10.7 |
| Ch2 2017 – Ch2 2018 (%) | 9.3 | 8.4 |
| Ch2 2016 – Ch2 2017 (%) | 21.6 | 22.0 |
| Ch2 2015 – Ch2 2016 (%) | 14.4 | 14.1 |
| Ers 28 Tach 2014 (sail blynyddol, %) | 12.1 | 12.1 |

**10.** Ar hyn o bryd, nid oes mynegai o'r fath yn bodoli ar gyfer buddsoddi cyfrifol gyda golwg ar ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol neu lywodraethu eraill ('ESG'), megis buddsoddiadau mewn arfau. Wrth gwrs, bydd rheolwyr Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ymwybodol o'r materion hynny, a byddent yn ystyried cerbydau buddsoddi priodol eraill, os a phan fydd y rhain ar gael, a allai ganiatáu i'r Pwyllgor Pensiynau ystyried mwy o fuddsoddi cyfrifol yn y dyfodol.

**Atodiad**

Datganiad i'r Wasg - Gwynedd yn cadarnhau buddsoddiad carbon isel